Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Ffurflen Adennill / Newid mewn Amgylchiadau Budd-dal Tai, Gostyngiadau Treth y Cyngor a Phrydau Ysgol am Ddim

This form is available in English from the Civic Centre

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

Ben Smith
Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau,
Neuadd y Ddinas,
Abertawe SA1 4NR
01792 635353

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA	
Mae manylion incwm yn ofynnol am y cyfnod: O:	I:

1. Eich enw a'ch cyfeiriad llawn

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

.....

Côd post: .....

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG

Dyddiad y derbyniwyd y ffurflen hon (stamp)

Rhif yr Hawliad:

2. Manylion cyswllt

Gall ein helpu i brosesu'ch hawliad yn gynt os nodwch eich manylion cyswllt yma:

Rhif Ffôn yn ystod y dydd: | Rhif Ffôn Symudol:

Cyfeiriad E-bost:

3. Dyma fy nghais ar gyfer:

☐ Budd-dal Tai ☐ Gostyngiad Treth y Cyngor Ticiwch yr un rydych am wneud cais amdano.

Byddai'n well gen i petaech yn cysylltu â mi yn Gymraeg ☐ Saesneg ☐ ticiwch

NODYN PWYSIG: Darllenwch y nodiadau yn y blychau llwyd cyn i chi gwblhau pob adran o'r ffurflen gais.

Mae'n hollbwysig eich bod yn darllen y nodiadau ar bob tudalen. Byddant yn dweud wrthych pa wybodaeth sy'n ofynnol i brosesu'ch cais. Defnyddiwch inc du neu las wrth gwblhau'r ffurflen a pheidiwch â defnyddio hylif cywiro.

Llenwch y ffurflen a'i dychwelyd ar unwaith. Gallech golli arian drwy oedi. Lle rydym yn gofyn am brawf, mae'n RHAID i chi anfon dogfennau gwreiddiol, nid llungopïau. Peidiwch ag anfon dogfennau gwerthfawr drwy'r post. Gallwch fynd â'r rhain i'ch Swyddfa Dai Ranbarthol leol neu i'r Is-adran Budd-daliadau yng Nghanolfan Gyswllt Canolfan Ddinesig Abertawe. Anfonwch gymaint o brawf â phosib gyda'r ffurflen. Peidiwch ag oedi os na allwch anfon y prawf gwreiddiol ar unwaith, anfonwch ef o fewn mis calendr.

Atebwch bob cwestiwn gan dicio'r blwch perthnasol.

Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw gwestiwn ar y ffurflen hon, cysylltwch â'r Is-adran Budd-daliadau yng Nghanolfan Gyswllt Canolfan Ddinesig Abertawe am help. Gallwch hefyd ffonio'r llinell gymorth budd-daliadau ar 01792 635353.

Gallwch hefyd fynd i'r gwe-dudalennau yn: www.abertawe.gov.uk/budddaltai.

Does dim rhaid i chi ddweud wrthym am arian rydych yn ei dderbyn gan yr Ymddiriedolaethau Macfarlane, Ymddiriedolaeth Eileen neu'r Gronfa Byw'n Annibynnol. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am bob math arall o incwm a chyfalaf.

4. Chi a'ch partner

Atebwch yr holl gwestiynau amdanoch chi. Mae'n rhaid i chi ateb pob cwestiwn am eich partner hefyd os oes gennych un. Mae partner yn golygu rhywun o'r rhyw arall neu o'r un rhyw sy'n briod â chi neu sy'n bartner sifil i chi neu sy'n byw gyda chi fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

	Chi	Eich Partner
Teitl:	Mr/Mrs/Miss/Ms	Mr/Mrs/Miss/Ms
Cyfenw:		
Enwau Cyntaf:		
Dyddiad Geni:	/ /	/ /
Rhif Yswiriant Gwladol:		

(Mae'n rhaid darparu hwn i ni wirio'ch hawliad)

Os nad yw'ch partner yn Ddinesydd Prydeinig, cadarnhewch:-

Beth yw ei genedligrwydd | Pryd y daeth i'r DU

Gan ddibynnu ar eich atebion efallai y bydd angen i ni ysgrifennu atoch am fwy o wybodaeth.

5. Eich enillion chi a'ch partner

	Chi	Eich Partner
Ydych chi neu'ch partner yn gweithio?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os nad ydych, ewch i Adran 6. Os ydych, rhowch fanylion isod

	Chi	Eich Partner
Swydd:		
Enw a chyfeiriad cyflogwr:		
Dyddiad dechrau gweithio:	/ /	/ /
Ydy'r gyflogaeth hon yn mynd i bara mwy na 5 wythnos?	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Nifer yr oriau a weithir:	awr yr wythnos	awr yr wythnos
Tâl arferol cyn didyniadau:	£	£
Pa mor aml caiff ei dalu?		
Dull talu (e.e. arian parod, credyd banc, siec)		
Ydych chi'n elwa o gynllun cyfrannau cwmni neu gynllun Talu Wrth Ennill?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Ydych chi'n hunangyflogedig, yn gyfarwyddwr neu'n berchennog cwmni?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os ydych, bydd angen i chi ffonio'r Is-adran Budd-daliadau i ofyn am ffurflen Cyfarwyddwr / Perchennog Cwmni a Ffurflen Enillion Hunangyflogedig.

Bydd rhaid i ni weld tystiolaeth o'ch enillion chi a'ch partner. Anfonwch y canlynol:

- Eich slipiau talu am y 5 wythnos diwethaf (os cewch eich talu'n wythnosol), 3 slip talu (os cewch eich talu bob pythefnos), 2 slip talu (os cewch eich talu'n fisol neu bob 4 wythnos).
- Os nad oes slipiau talu gennych, gall eich cyflogwr gwblhau'r Dystysgrif Cyflogwr sydd wedi'i hatodi. Os ydych wedi dechrau gweithio'n ddiweddar, gall eich cyflogwr gwblhau'r Dystysgrif Cyflogwr gan roi amcangyfrif o'ch enillion.

6. Manylion eich incwm arall, gan gynnwys budd-daliadau'r wladwriaeth, credydau treth, pensiynau preifat neu incwm o unrhyw ffynhonnell arall.

Oes gennych chi neu eich partner unrhyw incwm arall?	Chi	Eich Partner
	Nac oes ☐ Oes ☐	Nac oes ☐ Oes ☐

Os ateboch 'Nac oes', ewch i Adran 7. Os ateboch 'Oes', rhowch fanylion yr incwm arall.

Chi				Eich Partner			
Math o incwm	Faint rydych yn ei dderbyn?	Pa mor aml caiff ei dalu?	Pa ddyddiad y dechreuodd?	Math o incwm	Faint rydych yn ei dderbyn?	Pa mor aml caiff ei dalu?	Pa ddyddiad y dechreuodd?
	£				£		
	£				£		
	£				£		
	£				£		

Os ydych yn derbyn Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl (Gofal) neu Daliadau Annibyniaeth Personol (byw dyddiol), a oes unrhyw un yn derbyn Lwfans Gofalwr neu'r Elfen Gofalwr yn ei Gredyd Cynhwysol am ofalu amdanoch? Os "oes", nodwch ei enw a'i gyfeiriad a rhowch brawf os telir yr Elfen Gofalwr mewn Credyd Cynhwysol?	Chi	Eich Partner
	Nac oes ☐ Oes ☐	Nac oes ☐ Oes ☐

Prawf: Incwm Arall

Mae'n rhaid i ni weld prawf o unrhyw incwm arall rydych chi neu'ch partner yn ei dderbyn. Darparwch ddogfennau gwreiddiol yn unig, nid llungopïau.

Prawf o fudd-daliadau:

- Holl dudalennau'ch llythyrau dyfarnu budd-dal diweddaraf
- Cyfriflenni banc sy'n dangos y 2 daliad diwethaf os cânt eu talu i'r banc

Prawf o Bensiynau Galwedigaethol/Pensiynau Preifat:

- Eich slip pensiwn misol diweddaraf
- Cyfriflen banc ddiweddar sy'n dangos y taliad hwn. Sylwer, bydd angen i chi anfon eich slip pensiwn nesaf pan fyddwch yn ei dderbyn
- Nid yw P60 yn dderbyniol

Prawf o Gredyd Treth Plant/Credyd Treth Gwaith:

- Anfonwch eich llythyr dyfarnu Credyd Treth atom

Prawf o unrhyw incwm arall:

- Llythyrau/Cytundebau swyddogol sy'n rhoi manylion
- Asesiad ariannol myfyriwr

7. Myfyrwyr

Ydych chi neu'ch partner yn fyfyriwr? Os ydych, byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth	Chi	Eich Partner
	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐

8. Budd-daliadau/credydau rydych wedi gwneud cais amdanynt

	Chi	Eich Partner
Ydych chi'n aros am benderfyniad ar gais neu apêl Budd-dal, Credyd Treth neu Gredyd Pensiwn?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Os ydych, nodwch		
a) y math o fudd-dal neu ddyfarniad		
b) dyddiad eich cais neu'ch apêl	/ /	/ /

9. Os nad oes unrhyw incwm gennych

Os nad oes unrhyw incwm gennych ar hyn o bryd, rhowch y rheswm am hyn a dywedwch sut rydych yn talu am fwyd a chostau'r cartref.

10. Arian rydych yn ei dalu

	Chi	Eich Partner
Ydych chi'n talu at gynhaliaeth myfyriwr?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Os ydych, nodwch faint a darparwch brawf	£	£
Pa mor aml ydych chi'n talu'r swm hwn?		
Ydych chi'n talu i Gynllun Pensiwn Personol?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Os ydych, nodwch faint a darparwch brawf	£	£
Pa mor aml ydych chi'n talu'r swm hwn?		
Ydych chi'n talu costau gofal plant?	Nac ydw ☐ Ydw ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Enw a chyfeiriad y gwarchodwr plant:		
Ei rif cofrestru:		
Tâl wythnosol ac ar gyfer pwy mae'n cael ei dalu	£	£
	£	£

Prawf o Gostau Gofal Plant

Mae angen prawf o daliadau gofal plant. Gallwch gwblhau'r ffurflen Prawf o Daliadau Gofal Plant sydd ar gael gan Is-adran Budd-daliadau Dinas a Sir Abertawe neu gallwch ddarparu derbynebau am daliadau 5 wythnos neu ddeufis wedi'u llofnodi gan eich darparwr gofal plant

11. Manylion eich cyfrifon, eich cynilion a'ch buddsoddiadau

Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw gyfrifon (gan gynnwys cyfrifon cyfredol), cynilion, buddsoddiadau, arian ar y rhyngrwyd, eiddo a/neu dir?

Chi	Eich Partner
Nac oes ☐ Oes ☐	Nac oes ☐ Oes ☐

Os ydych chi wedi ticio 'Nac oes', ewch i Adran 12. Os oes, rhowch fanylion.

Chi			Eich Partner		
Beth sydd gennych, e.e. cyfrif cyfredol, ISA?	Faint sydd gennych/faint yw ei werth?	Rhif y cyfrif os yw'n briodol	Beth sydd gennych, e.e. cyfrif cyfredol, ISA?	Faint sydd gennych/faint yw ei werth?	Rhif y cyfrif os yw'n briodol
Cyfrif Cyfredol	£		Cyfrif Cyfredol	£	
Swyddfa Bost	£		Swyddfa Bost	£	
	£			£	
	£			£	
	£			£	
	£			£	

Os oes gennych chi unrhyw gynilion eraill, buddsoddiadau, arian ar y rhyngrwyd (e.e. Bitcoins), eiddo a/neu dir, rhowch fanylion isod.

Stociau a Chyfrannau

Enw'r Cwmni	Nifer a ddelir
Oes modd gwerthu'r rhain? Nac oes ☐ Oes ☐	
Oes modd gwerthu'r rhain? Nac oes ☐ Oes ☐	

Enw'r Cwmni	Nifer a ddelir
Oes modd gwerthu'r rhain? Nac oes ☐ Oes ☐	
Oes modd gwerthu'r rhain? Nac oes ☐ Oes ☐	

Prawf: Cyfrifon, Cynilion a Buddsoddiadau

Darparwch ddogfennau gwreiddiol yn unig, nid llungopïau. Rhaid i unrhyw gyfrif ddangos y balans diweddaraf gan gynnwys unrhyw log.

- Llyfrau Banc/Cymdeithas Adeiladu / Swyddfa Bost
- Cyfriflenni Banc/Cymdeithas Adeiladu am y 2 fis diwethaf (nid cyfriflenni banc bach/o'r peiriant arian)
- Tystysgrifau Cyfranddaliadau
- Tystysgrif Ymddiriedolaeth Unedol
- Tystysgrif Cynilion Cenedlaethol
- Tystysgrif Bond Premiwm
- Bondiau Incwm
- Cyfriflenni PayPal

Prawf: Eiddo a Thir - Os yw eich eiddo/tir ar werth, bydd yn rhaid i chi ddarparu prawf o hyn. Os ydych yn gwerthu'r eiddo neu'r tir drwy werthwr tai, bydd y manylion gwerthu y mae'n eu darparu'n ddigonol. Os nad yw'r eiddo/tir rydych yn berchen arno ar werth, bydd yn rhaid i'r eiddo neu'r tir gael ei brisio. Ffoniwch Llinell Gymorth yr Is-adran Budd-daliadau ar Abertawe 635353 a gofyn am ffurflen LA1 a fydd yn cael ei hanfon atoch yn syth. Yna bydd rhaid i chi gwblhau'r ffurflen gan roi manylion yr eiddo/tir rydych yn berchen arno a'i hanfon at y swyddfa hon.

12. Pwy sy'n byw yn y cyfeiriad gyda chi? - mae hyn yn cynnwys eich plant dibynnol, unrhyw un nad yw'n ddibynnol arnoch, lletywyr, tenantiaid ac is-denantiaid.

Oes unrhyw un arall yn byw yn y cyfeiriad hwn gyda chi? Nac oes ☐ Oes ☐

Os ydych chi wedi ticio 'nac oes', ewch i Adran 13.
Os ydych chi wedi ticio 'oes', rhowch fanylion amdanynt.

Lletywyr/Is-denantiaid/ Cyd-denantiaid/Cydberchnogion	**Person 1af**	**2il Berson**	**3ydd Person**
Cyfenw:			
Enwau cyntaf:			
Dyddiad geni:	/ /	/ /	/ /
Dywedwch a yw'n lletywr, yn is-denant, yn gyd-denant/ gydberchennog			
Y berthynas â chi: e.e. mab, modryb, brawd, ffrind.			

Pobl nad ydynt yn ddibynnol arnoch	**Person 1af**	**2il Berson**	**3ydd Person**
Cyfenw:			
Enwau cyntaf:			
Dyddiad geni:	/ /	/ /	/ /
Rhif Yswiriant Gwladol:			
Rhyw:	Gwryw ☐ Benyw ☐	Gwryw ☐ Benyw ☐	Gwryw ☐ Benyw ☐
Perthynas â chi: e.e. mab, modryb, brawd, ffrind			
Math o incwm a dderbynnir			
Swm a dderbynnir bob wythnos	£	£	£

Plant Dibynnol	**Plentyn 1af**	**2il Blentyn**	**3ydd Plentyn**	**4ydd Plentyn**	**5ed Plentyn**
Cyfenw:					
Enwau cyntaf:					
Perthynas â chi:					
Dyddiad geni:	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /
Ydych chi neu'ch partner yn derbyn budd-dal plant ar ei gyfer?	Nac ydym ☐ Ydym ☐	Nac ydym ☐ Ydym ☐	Nac ydym ☐ Ydym ☐	Nac ydym ☐ Ydym ☐	Nac ydym ☐ Ydym ☐
Y dyddiad pan ddaw budd-dal plant i ben	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /
Ydy'r plentyn mewn addysg amser llawn?	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Nac ydy ☐ Ydy ☐
Os ydy, rhowch enw'r ysgol mae'n mynd iddi:					

Os **NAD** ydych am dderbyn prydau ysgol am ddim, ticiwch yma ☐

13. Rhent

Ydych chi'n rhentu'ch eiddo? Nac ydw ☐ Ydw ☐

(Byddai hyn yn cynnwys eiddo cymdeithasau tai a'r cyngor)

Os "Nac ydw", ewch i Adran 14.

13a. Mae'r rhent cymwys a ddefnyddir i gyfrifo'ch Budd-dal Tai yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref a nifer yr ystafelloedd gwely y mae eu hangen arnoch ar eu cyfer. Fodd bynnag, gellir diogelu'ch rhent cymwys neu ganiatáu ystafelloedd gwely ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae angen gofal dros nos arnoch chi, eich partner, rhywun nad yw'n dibynnu arnoch neu blentyn;
- Ni allwch chi a'ch partner rannu ystafell wely oherwydd anabledd;
- Ni all plant yn eich cartref rannu ystafell wely oherwydd anabledd.

Rhaid bod ystafell wely ychwanegol ar gael er mwyn caniatáu budd-dal ychwanegol.

Sawl ystafell wely sydd gennych yn eich cartref? ☐

Dan reolau Budd-dal Tai, byddai disgwyl i 2 blentyn dan 10 oed o unrhyw ryw, neu 2 blentyn dan 16 oed o'r un rhyw, rannu ystafell wely. Rhaid i'r cyngor benderfynu sawl ystafell wely y mae ei hangen ar deulu wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai sy'n ddyledus.

Fodd bynnag, gellir caniatáu ystafell wely ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Ni all pâr rannu ystafell wely oherwydd anabledd **neu**
- mae gan blentyn anabledd difrifol a:

  byddai ei ymddygiad naill ai'n amharu ar gwsg plentyn arall neu'n achosi perygl o niwed corfforol i un o'r ddau blentyn petaent yn rhannu ystafell wely; **ac**
- mae plentyn anabl neu aelod anabl o'r pâr yn derbyn elfen GOFAL Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganolig neu uwch, Lwfans Gweini, elfen byw dyddiol Taliadau Annibyniaeth Personol neu Daliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (TALIA).

O ystyried yr uchod, a oes unrhyw un yn eich aelwyd nad yw'n gallu rhannu ystafell wely?

Os "Nac oes", ewch i 13b. Nac oes ☐ Oes ☐

Os "Oes", cwblhewch yr adran hon yn llawn.

Mae'n rhaid i'r cyngor benderfynu a yw'n rhesymol i rannu ystafell wely. Rhowch esboniad llawn o'r amgylchiadau a pharhewch yn Adran 14 os bydd angen. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ategol gan ymarferwr gofal iechyd proffesiynol i gadarnhau'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym.

Enw'r plentyn y mae angen ystafell wely ar wahân arno:

Beth yw ei gyflwr meddygol?

Sut mae'n effeithio arno – beth yw natur a difrifoldeb yr anabledd?

Os oes angen ystafell ar wahân ar blentyn, pam byddai ei gyflwr yn tarfu ar gwsg plentyn arall sy'n rhannu ei ystafell wely neu'n peri perygl o niwed corfforol i'r naill blentyn neu'r llall? **neu**
Os nad yw pâr yn gallu rhannu ystafell wely oherwydd anabledd, esboniwch pam

13b. Oes ystafell yn cael ei darparu ar gyfer y gofalwr fel y gall aros dros nos i ofalu amdanoch chi, eich partner, cyd-denant, rhywun nad yw'n dibynnu arnoch neu blentyn?

Nac oes ☐ Oes ☐

Sylwer mai un ystafell wely ychwanegol yn unig y gellir ei chaniatáu ar gyfer gofalwr (neu dîm o ofalwyr) dros nos nad yw'n byw yn yr un aelwyd

Rhaid bod ystafell wely ychwanegol ar gael er mwyn caniatáu budd-dal ychwanegol.

Os "Nac oes", ewch i Adran 13c.

Os "Oes", cwblhewch yr adran hon yn llawn.

Pwy sy'n derbyn y gofal dros nos?

Pa mor aml y darperir y gofal dros nos?

Dywedwch wrthym sawl noson (ar gyfartaledd) y darperir gofal dros nos bob wythnos. Os na ddarperir gofal dros nos bob wythnos, dywedwch wrthym pa mor aml mae'n cael ei roi.

Pwy sy'n darparu'r gofal?

Gallai hyn fod yn sefydliad megis y cyngor neu wasanaeth nyrsio dros nos NEU gallai fod yn unigolyn megis ffrind neu berthynas. Gallai hefyd fod yn sawl person sy'n helpu yn eu tro.

- Os mai sefydliad sy'n darparu'r gofal, nodwch ei enw a'i gyfeiriad.
- Os mai unigolyn neu unigolion sy'n darparu'r gofal, nodwch eu henwau/cyfeiriadau.

Hefyd bydd angen i chi gyflwyno llythyr oddi wrth y person/sefydliad sy'n darparu'r gofal sy'n cadarnhau'r wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni ar y ffurflen hon. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw a chyfeiriad y person/unigolyn sy'n darparu'r gofal.

Dywedwch wrthym isod pam mae angen gofal dros nos a rhowch dystiolaeth gan ymarferwr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi'ch hawl.

Ni fydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth hon os yw'r person y gofelir amdano'n derbyn Lwfans Gweini, elfen GOFAL Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd uwch neu ganolig neu Daliadau Annibyniaeth Personol ar gyfer byw dyddiol.

Gallwch barhau yn Adran 14 os bydd angen.

Tystiolaeth gan ymarferydd gofal iechyd proffesiynol i gefnogi'ch cais.

Os bydd rhaid i chi ddarparu prawf, bydd angen i ni weld tystiolaeth ategol (ysgrifenedig) gan ymarferydd gofal iechyd proffesiynol i gadarnhau bod angen gofal dros nos / ystafell wely ychwanegol. Gall ymarferydd gofal iechyd proffesiynol fod yn un o'r canlynol:

- Meddyg ymgynghorol
- Arbenigwr ysbyty
- Ffisiotherapydd
- Therapydd galwedigaethol
- Nyrs ardal
- Nyrs seiciatrig gymunedol
- Meddyg teulu (GP)

Byddai rhaid i'r ymarferydd gadarnhau bod y rheswm a roddwyd gennych am gael gofal dros nos neu ystafell wely ychwanegol yn gywir.

13c. Eich rhent

Ydych chi'n rhentu'ch cartref gan landlord preifat neu gymdeithas tai? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os nad ydych, ewch i Adran 14. Os ydych, cwblhewch weddill yr adran hon.

a) Faint yw eich rhent gros gan gynnwys unrhyw daliadau am wasanaethau? £

b) Oes rhaid i chi dalu'r swm hwn:

Bob dydd ☐ Bob wythnos ☐ Bob pythefnos ☐

Bob 4 wythnos ☐ Bob mis ☐ Arall ☐

c) Ydych chi'n byw mewn fflat? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os ydych, dywedwch wrthym ar ba lawr mae'r fflat (y llawr gwaelod yw'r llawr ar lefel y palmant)

ch) Ydych chi'n rhentu ystafell neu rai o'r ystafelloedd yn y cyfeiriad a nodwyd yn Adran 1? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os ydych, dywedwch wrthym ar ba lawr mae eich ystafell neu'ch ystafelloedd (y llawr gwaelod yw'r llawr ar lefel y palmant).

Ticiwch leoliad eich ystafell
(atebwch y cwestiynau fel pe baech yn wynebu blaen yr eiddo o'r stryd).

1) Blaen ☐ Canol ☐ Cefn ☐

2) Yr ochr chwith ☐ Canol ☐ Yr ochr dde ☐

Oes rhif gan eich ystafell neu'ch fflat un ystafell? Nac Oes ☐ Oes ☐

Os oes, nodwch rif yr ystafell

d) Manylion y landlord/asiant

Teitl, enw a chyfeiriad eich landlord:		Teitl, enw a chyfeiriad y person sy'n casglu'r rhent (yr asiant) os yw'n wahanol i'ch landlord:	
Rhif ffôn y landlord:		Rhif ffôn yr asiant:	

dd) Ydych chi am i ni drafod eich hawliad â'ch landlord/asiant? Nac ydw ☐ Ydw ☐

e) Ydych chi neu'ch partner yn perthyn i'r landlord neu'r perchennog neu ei bartner? Nac ydym ☐ Ydym ☐

Os ydych, nodwch y berthynas

13c. Eich rhent (parhad)

f) Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar unrhyw ran o'r eiddo lle rydych yn byw ar hyn o bryd? Nac ydym ☐ Ydym ☐

ff) A fuoch chi neu'ch partner erioed yn berchen ar unrhyw ran o'r eiddo lle rydych yn byw ar hyn o bryd? Naddo ☐ Do ☐

Os do, pryd daeth eich perchnogaeth i ben? / /

g) Ydy'ch landlord yn gyn-bartner i chi neu'ch partner? Nac ydy ☐ Ydy ☐

ng) Ydy'ch landlord yn rhiant i blentyn rydych chi neu'ch partner yn gyfrifol amdano? Nac ydy ☐ Ydy ☐

h) Ydy'ch landlord yn ymddiriedolaeth yr ydych chi neu'ch partner yn un o'i hymddiriedolwyr neu ei buddiolwyr? Nac ydy ☐ Ydy ☐

i) Ydy'ch landlord yn ymddiriedolaeth y mae'ch plentyn chi neu blentyn eich partner yn un o'i buddiolwyr? Nac ydy ☐ Ydy ☐

l) Ydych chi'n rhentu'r llety gan gwmni yr ydych chi neu'ch partner yn un o'r cyfarwyddwyr neu'n gweithio iddo? Nac ydw ☐ Ydw ☐

ll) Ydych chi'n byw yn yr eiddo dan amodau'ch cyflogaeth chi neu gyflogaeth eich partner? Nac ydw ☐ Ydw ☐

m) I bwy rydych chi am i'r taliadau gael eu gwneud Eich hun ☐ Eich landlord ☐

Mae'n bosib na fyddwn yn gallu talu'ch landlord yn uniongyrchol heb fwy o wybodaeth. Os yw hyn yn wir, byddwn yn anfon rhagor o ffurflenni atoch i'w cwblhau.

Ydy'ch rhent neu'ch llety wedi newid mewn unrhyw ffordd? Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os nac ydy, ewch i Adran 14. Os ydy, rhowch fanylion y newidiadau a dyddiad y newid yma.

Dyma rai enghreifftiau o newidiadau: newid ystafell o fewn yr eiddo, cynnydd neu ostyngiad rhent neu newid yn y taliadau gwasanaeth sydd wedi'u cynnwys yn y rhent.

14. Gwybodaeth ychwanegol

Os oes gennych unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch hawliad, dylech ei nodi yma.

14. Gwybodaeth ychwanegol (parhad)

15. Eich dyletswyddau chi

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich Budd-dal Tai neu'ch Gostyngiad Treth y Cyngor drwy ysgrifennu i'r Is-adran Budd-daliadau, Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN neu drwy e-bostio benefits@swansea.gov.uk.

Dyma rai enghreifftiau o newidiadau mewn amgylchiadau mae'n rhaid i <u>bawb</u> roi gwybod amdanynt ar unwaith i'r Is-adran Budd-daliadau:

- Rydych chi a/neu'ch partner yn derbyn Credyd Cynhwysol neu'n dod yn gymwys i'w dderbyn.
- Mae'ch cyfeiriad wedi newid (mae hyn yn cynnwys symud ystafell mewn tŷ a rennir).
- Nifer y bobl sy'n byw gyda chi (gan gynnwys unrhyw gyd-denantiaid ac unrhyw bobl sy'n byw gyda nhw).
- Rydych chi, eich partner neu rywun arall yn eich aelwyd yn dechrau neu'n gorffen gweithio neu mae eich incwm/cynilion chi neu eu hincwm/cynilion nhw'n newid.
- Mae unrhyw un o'ch plant yn gadael yr ysgol.
- Unrhyw newidiadau i'ch credydau treth.
- Rydych yn gadael eich cyfeiriad am unrhyw reswm (e.e. rydych chi'n mynd ar wyliau neu i'r ysbyty).
- Rydych chi a/neu'ch partner yn mynd i'r carchar.
- Os nad ydych chi'n denant y cyngor ac mae'r rhent mae'n rhaid i chi ei dalu'n newid.
- Rydych chi'n penderfynu aros yn barhaol mewn gofal preswyl neu gartref nyrsio.
- Mae'ch landlord neu berchennog yr eiddo rydych yn ei rentu'n dod yn gyfrifol am unrhyw un o'ch plant.
- Rydych chi'n dechrau cwrs fel myfyriwr.

Os <u>nad</u> ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym am y canlynol hefyd:

- Unrhyw newid yn eich incwm neu'ch cynilion chi a/neu'ch partner.
- Os yw'ch taliadau Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth chi neu'ch partner yn dod i ben. **Ni ddylech ddibynnu ar yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Waith i ddweud wrthym.**

Os ydych yn derbyn Credydau Pensiwn Cynilion, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym

- Os yw'ch cynilion yn cynyddu dros £16,000 (mae hyn yn cynnwys stociau, cyfrannau, bondiau a gwerth unrhyw eiddo rydych yn berchen arno heblaw am eich cartref)

Sylwer nad yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr. Os bydd unrhyw amgylchiadau sydd heb eu rhestru uchod yn newid, cysylltwch â'r Is-adran Budd-daliadau.

16. Eich Preifatrwydd

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni gyflawni'n hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel rhywbeth sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

17. Datganiad - Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio

Rwy'n datgan fel a ganlyn:

- Mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i.
- Os nad oeddwn yn gallu ateb cwestiwn oherwydd fy mod yn aros am wybodaeth, rwyf wedi nodi hyn ar y ffurflen a byddaf yn anfon y manylion atoch ar ôl i mi eu derbyn.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth yn y ffurflen hon.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r cyngor groeswirio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi gydag is-adrannau eraill y cyngor, y Gwasanaeth Swyddogion Rhent, a chynghorau ac awdurdodau budd-dal eraill.
- Rwy'n deall y gall fod gofyn i mi gyflwyno mwy o wybodaeth bersonol i gefnogi fy nghais, ac y bydd yr wybodaeth hon yn destun yr un rheolau preifatrwydd a gynhwysir yn "Eich Preifatrwydd".
- Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os rwy'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn neu'n peidio â rhoi gwybod, yn brydlon neu beidio, am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy Mudd-dal Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor.
- Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu arian os caiff gormod o Fudd-dal Tai/Ostyngiad Treth y Cyngor ei dalu o ganlyniad i newidiadau yn y manylion a roddir yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth rwyf wedi'u darparu i asesu fy Mudd-dal Tai a/neu fy Ngostyngiad Treth y Cyngor, ac y gellir defnyddio'r manylion hyn ar gyfer unrhyw ostyngiad, gwasanaeth neu fudd-dal lleol y mae'r cyngor yn ei weinyddu. Gall y cyngor roi gwybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth neu gyrff allanol, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.
- Rwyf wedi darllen a deall "Eich Dyletswyddau" ac "Eich Preifatrwydd"
- Rwyf wedi darllen a deall y datganiad hwn.

Eich llofnod:		Dyddiad:	/ /
Llofnod eich partner:		Dyddiad:	/ /

18. Os na all yr hawliwr neu'r partner lofnodi'r ffurflen hon ei hunan

Oes gan unrhyw un hawl gyfreithiol i ofalu am faterion ariannol y person hwn? Oes ☐ Nac oes ☐

Os oes, gwnewch yn siŵr fod y person â'r hawl gyfreithiol i ofalu am faterion ariannol y person hwn wedi llofnodi'r datganiad uchod.

Dywedwch wrthym pam rydych yn llofnodi'r ffurflen ar ran y person sy'n hawlio, e.e. pŵer atwrnai, dirprwy a benodwyd gan y llys, rheswm arall.

Enw a chyfeiriad y person a lofnododd y ffurflen:		Llofnod:	
		Perthynas â'r person sy'n hawlio:	
		Dyddiad:	/ /
Rhif ffôn:		E-bost	

At Ddefnydd y Swyddfa: Ni allaf lenwi'r ffurflen hon fy hun felly mae aelod o staff y cyngor wedi'i llenwi ar fy rhan. Rwyf wedi gwirio'r wybodaeth ar y ffurflen ac mae'n gywir. Rwyf wedi darllen Adran 15 ac Adran 16 / mae aelod o staff y cyngor wedi darllen Adran 15 ac Adran 16 i mi ac rwy'n eu deall.

Eich llofnod:		Dyddiad:	/ /
Enw'r aelod staff:		Llofnod:	